estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar y sector uwchradd – Tymor y Gwanwyn 2021

Mawrth 2021



# Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar y sector uwchradd – Tymor y Gwanwyn 2021

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r canfyddiadau o'r galwadau ffôn ymgysylltu a wnaed â thros 150 o ysgolion uwchradd rhwng diwedd Hydref 2020 a diwedd Chwefror 2021. Mae'r adroddiad wedi'i seilio ar y wybodaeth a drafodwyd yn ystod cyfarfodydd o bell gyda phenaethiaid, uwch arweinwyr ac athrawon. Prif ffocws pob trafodaeth oedd lles, dysgu ac addysgu, y cwricwlwm, dysgu proffesiynol a nifer o faterion penodol i'r sector, fel cymwysterau ac arholiadau. Mae'r cyfrannau'n perthyn i'r sampl o ysgolion y cysylltom â nhw yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

Llywiwyd yr adroddiad hwn gan dystiolaeth o'r ffynonellau canlynol:

- Cyfarfodydd o bell â phenaethiaid a/neu uwch arweinwyr sy'n gyfrifol am feysydd penodol
- Cyfarfodydd o bell ag athrawon a fynychodd ein fforymau athrawon
- Ymweliadau anffurfiol gan AEM â 10 ysgol uwchradd

**Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg hefyd.**

## Cynnwys


**Y prif ganfyddiadau ..... 1**
Lles ..... 1
Dysgu ac addysgu ..... 1
Cymwysterau ac arholiadau ..... 1
Y cwricwlwm ..... 2
Cwricwlwm i Gymru ..... 2
Dysgu proffesiynol ..... 2
Arweinyddiaeth ..... 3
**Lles ..... 4**
Lles disgyblion ..... 4
Lles staff ..... 5
**Dysgu ac addysgu ..... 5**
**Cymwysterau ac arholiadau ..... 8**

**Y Cwricwlwm** ........ **9**
**Cwricwlwm i Gymru** ........ **11**
**Dysgu proffesiynol** ........ **12**
**Arweinyddiaeth** ........ **15**
Hyblygrwydd a gweithio ystwyth ........ 15
Rheoli trefniadau gweithredol ........ 15
Cyfathrebu ........ 16
Cefnogi cymuned yr ysgol (rhieni a staff a llywodraethwyr) ........ 17
Cydweithredu a gweithio rhwng ysgolion ........ 17
Monitro a gwerthuso ........ 18
Y grant dysgu carlam (Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau) ........ 19
Lles penaethiaid a'r effaith ar arweinwyr ........ 20
Rheoli adnoddau ........ 20

## Y prif ganfyddiadau

### Lles

1 Mae disgyblion yn hapus i fod nôl yn yr ysgol, ond dywed llawer o ysgolion fod angen cymorth ychwanegol ar ychydig o ddisgyblion i ddod i'r arfer eto â bywyd ysgol.

2 Mae ysgolion wedi parhau i flaenoriaethu lles ac iechyd disgyblion. Mewn sawl achos, maent wedi addasu'u cwricwlwm a'u dulliau i roi mwy o amser i ddisgyblion wneud gweithgareddau heb ddefnyddio dyfeisiau digidol.

3 Dywed llawer o ysgolion y bu cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau ynghylch iechyd meddwl. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn pryderu am eu hiechyd, eu cyfleoedd gyrfaol yn y dyfodol, arholiadau ac asesiadau, a dewis pynciau i'w hastudio yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y cyfnod ôl-16.

4 Mae athrawon yn parhau i ddangos lefelau uchel o ymrwymiad a gwaith tîm, ond maent yn bryderus am weithdrefnau asesu a'r baich gwaith o ran cynllunio ar gyfer dysgu o bell ac addysgu wyneb yn wyneb ar yr un pryd hefyd.

### Dysgu ac addysgu

5 Yn ystod tymor yr hydref, amrywiodd profiadau disgyblion ac athrawon yn sylweddol oherwydd bod rhaid i swigod dosbarth a blwyddyn hunanynysu.

6 Yn ystod yr ail gyfnod clo, teimlai disgyblion ac athrawon eu bod wedi'u paratoi'n well ar gyfer dysgu o bell. Diwygiodd y rhan fwyaf o ysgolion eu dulliau fel eu bod yn cynnwys cyfran uwch o 'wersi byw'. Dywed ysgolion fod hyder cynyddol athrawon wrth ddefnyddio platfformau a rhaglenni digidol wedi caniatáu iddynt ddatblygu'u hymarfer.

7 Wrth i ysgolion ennill profiad o gynllunio dysgu ar-lein, mae arweinwyr a staff fwyfwy wedi ystyried egwyddorion craidd addysgu, fel esbonio, modelu, holi ac adborth.

8 Mae arweinwyr yn pryderu bod ymgysylltiad disgyblion â dysgu yn amrywio, yn enwedig disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

9 Mae llawer o ysgolion yn parhau i bryderu am fedrau llythrennedd a rhifedd sylfaenol disgyblion, ac mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn arbennig o bryderus am fedrau llafaredd disgyblion.

### Cymwysterau ac arholiadau

10 Ar y cyfan, mae ysgolion yn croesawu'r system ar gyfer dyfarnu graddau wedi'u pennu gan ganolfannau. Maent yn gweithio gyda disgyblion a rhieni i roi gwybod iddynt am y broses ac i leddfu unrhyw bryder.

11 Mae athrawon yn pryderu am y baich gwaith sydd ynghlwm â'r broses ar gyfer graddau wedi'u pennu gan ganolfannau, yn enwedig y broses apelio. Hefyd, teimlant o dan bwysau i gasglu cymaint o dystiolaeth â phosibl i lywio'r graddau wedi'u pennu gan ganolfannau.

12 Mae ysgolion yn awyddus i osgoi gorlethu disgyblion ag asesiadau yn ystod y cyfnod sydd ganddynt yn weddill yn yr ysgol.

13 Mae ysgolion yn pryderu na fydd disgyblion Blwyddyn 10 a Blwyddyn 12 wedi'u paratoi'n ddigon da ar gyfer asesiadau o'r fath pan fyddant yn ailddechrau, oherwydd y diffyg ymarfer arholiadau.

**Y cwricwlwm**

14 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi trefnu'u cwricwlwm i addysgu disgyblion mewn swigod, sy'n cadw at ganllawiau iechyd a diogelwch.

15 Mae ychydig o ysgolion wedi ad-drefnu'u darpariaeth cyfnod allweddol 4 o gyfnod tair blynedd i ddwy flynedd. Mae hyn yn osgoi'r angen i ddisgyblion iau ddewis pa bynciau i'w hastudio yng nghyfnod allweddol 4 heb iddynt gael digon o brofiad o bob pwnc.

16 Mae pynciau ymarferol wedi'i chael yn arbennig o anodd cyflawni elfennau ymarferol cyrsiau. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi blaenoriaethu dosbarthiadau arholi o ran gwaith ymarferol.

17 Mae gweithgareddau allgyrsiol wedi bod yn gyfyngedig iawn ac mae hyn wedi cael effaith niweidiol ar ddatblygu medrau personol a chymdeithasol disgyblion.

18 Mae ysgolion yn cynnig cymorth ychwanegol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol trwy ymyraethau, naill ai ar-lein neu trwy wahoddiad i'r ysgol.

Cyhyd ag y bo modd, mae ysgolion wedi parhau i gydweithio ag ysgolion a cholegau i gynnig cyrsiau yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth.

**Cwricwlwm i Gymru**

19 Mae'r cynlluniau ar gyfer gweithredu Cwricwlwm i Gymru yn amrywio'n helaeth yn y sector uwchradd. Mae llawer o ysgolion wedi atal eu cynlluniau ers i'r pandemig ddechrau, a braidd y cawsant gyfle i ddatblygu agweddau pan ddychwelodd disgyblion yn ystod tymor yr hydref.

20 Mae ysgolion yr oedd eu cynlluniau ar gyfer Cwricwlwm i Gymru wedi'u datblygu'n dda yn parhau i addasu a mireinio'u cwricwlwm.

21 Mae ysgolion wedi nodi datblygiadau a ysgogwyd gan y pandemig sy'n ddefnyddiol o ran datblygu cynlluniau Cwricwlwm i Gymru, er enghraifft dysgu digidol a gwaith trawsgwricwlaidd.

22 Pan fydd disgyblion yn dychwelyd, mae ysgolion yn bwriadu gweithio ymhellach ar eu gweledigaeth ar gyfer Cwricwlwm i Gymru a gweithredu cynlluniau i gydlynu'r gwaith ar draws yr ysgol.

23 Gohiriwyd dysgu proffesiynol ar gyfer Cwricwlwm i Gymru mewn llawer o ysgolion i ganolbwyntio ar agweddau eraill a ysgogwyd gan y pandemig.

**Dysgu proffesiynol**

24 Mae llawer o ysgolion wedi parhau i ganolbwyntio'u dysgu proffesiynol ar ddatblygu medrau digidol a gwella dysgu o bell, ynghyd â rhoi gwybod i staff am y gweithdrefnau gweithredol diweddaraf yn gysylltiedig â COVID-19.

25 Mae llawer o arweinwyr a staff yn teimlo bod y pandemig wedi ysgogi datblygiadau cadarnhaol o ran dysgu proffesiynol. Mae’r rhain yn cynnwys gwelliannau i fedrau digidol disgyblion a staff, a mynediad gwell a mwy hyblyg at amrywiaeth ehangach o gyfleoedd dysgu proffesiynol.

26 Er bod llawer o athrawon newydd gymhwyso (ANG) a myfyrwyr addysg gychwynnol athrawon (AGA) wedi parhau i dderbyn cymorth ar-lein, mae’r ddarpariaeth yn amrywio’n eang ar draws Cymru ac mae llawer o ysgolion uwchradd yn pryderu am eu diffyg profiad yn yr ystafell ddosbarth.

**Arweinyddiaeth**

27 Mae arweinwyr ysgol wedi dod yn fwyfwy hyblyg wrth reoli’r trefniadau gweithredol a’r gofynion iechyd a diogelwch a achoswyd gan y pandemig.

28 Bu’n rhaid i arweinwyr addasu’u cynlluniau gwella a chyflwyno blaenoriaethau newydd yn unol â’r newidiadau mewn amgylchiadau. Dywed llawer o arweinwyr fod y newidiadau a achoswyd gan y pandemig wedi gwneud iddynt fyfyrio ar eu harferion a’u ffyrdd o weithio, ac y byddant yn cadw rhai newidiadau.

29 Yn ystod tymor yr hydref, newidiodd lleiafrif o ysgolion amserau’r diwrnod ysgol i ganiatáu amrywio amser dechrau’r ysgol ac amser egwyl. Yn ystod yr ail gyfnod clo, mae ysgolion wedi amrywio amserau a threfn y diwrnod ysgol i gefnogi ymgysylltiad disgyblion â dysgu ar-lein.

30 Trwy gydol y pandemig, mae ysgolion wedi addasu’u dulliau cyfathrebu ac wedi ymateb yn dda i’r angen am gyfleu negeseuon yn glir ac yn gyflym i rieni, staff a disgyblion.

31 Mae arweinwyr yn darparu cymorth parhaus ar gyfer lles staff a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Sylwant fod staff yn fwy pryderus nag oeddent y tro diwethaf yr ailagorodd ysgolion.

32 Dywed y rhan fwyaf o benaethiaid fod cyd-benaethiaid wedi bod yn ffynhonnell gymorth bwysig. Mae penaethiaid a ddechreuodd yn eu swydd yn ystod neu yn syth cyn y pandemig wedi gwerthfawrogi hyn yn arbennig.

33 Wrth i flwyddyn academaidd 2020-21 fynd rhagddi, mae llawer o arweinwyr wedi ailsefydlu’u prosesau monitro a gwerthuso. Mae mwy o strwythurau wedi bod ar waith gan ysgolion i fonitro ansawdd y ddarpariaeth ar-lein nag yn ystod y cyfnod clo blaenorol. Fodd bynnag, mae natur, amlder a thrylwyredd gweithgareddau monitro yn amrywio’n helaeth ac, mewn ambell achos, maent yn ad hoc, yn hytrach nag yn rhai ffurfiol. Oherwydd amgylchiadau presennol, mae wedi bod yn heriol i ysgolion werthuso’n drylwyr ansawdd addysgu a dysgu yn benodol.

34 Mae ysgolion wedi mabwysiadu amrywiaeth fawr o ddulliau wrth gynllunio sut i ddefnyddio’r grant dysgu carlam. Mae’r modd y mae ysgolion wedi defnyddio a monitro’r grant yn amrywio ar draws Cymru.

35 Mae penaethiaid ac arweinwyr wedi’i chael hi’n heriol rheoli negeseuon a chynllunio’n briodol pan nad oes ganddynt fawr ddim neu ddim rhybudd ymlaen llaw am negeseuon cyhoeddus ar faterion fel dychwelyd i’r ysgol neu drefniadau ar gyfer arholiadau. Bach iawn o seibiant y mae uwch arweinwyr, a phenaethiaid yn benodol, wedi’i gael ers dechrau’r pandemig.

36 Yn ystod tymor yr hydref a'r ail gyfnod clo, parhaodd ysgolion i roi benthyg cyfarpar digidol i ddisgyblion heb gyfarpar TGCh gartref neu i ddisgyblion a oedd yn gorfod rhannu un ddyfais â nifer o frodyr a chwiorydd. Mae ychydig ysgolion yn archwilio sut y gallant gynnal ac ehangu cynlluniau i roi benthyg cyfarpar TGCh.

## Lles

### Lles disgyblion

Parhaodd lles disgyblion i fod yn brif ffocws i ysgolion uwchradd yn ystod tymor yr hydref a'r ail gyfnod clo ers Rhagfyr 2020. Yn ystod tymor yr hydref, dywedodd ysgolion fod disgyblion yn gyffredinol yn hapus i fod yn ôl yn yr ysgol . Canfu rhai ohonynt fod yr addasiadau a wnaethant i gadw disgyblion a staff yn ddiogel, fel 'swigod blwyddyn' ac egwyliau ac amserau cinio 'bob yn dipyn' wedi cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad disgyblion a'u hagweddau at ddysgu. Mewn llawer o ysgolion, fodd bynnag, fe wnaeth ychydig o ddisgyblion ei chael hi'n anodd dod i arfer â bod nôl yn yr ysgol eto ac roedd angen cymorth ychwanegol arnynt. Yn anochel, fe wnaeth presenoldeb, a nifer y disgyblion a oedd yn gorfod hunanynysu, amrywio'n sylweddol rhwng ysgolion, yn dibynnu ar nifer yr achosion o COVID-19 yn y gymuned leol.

Yn yr ail gyfnod clo, parhaodd ysgolion i gysylltu â disgyblion yn rheolaidd, yn aml drwy sesiynau â thiwtoriaid dosbarth, a rhoddwyd cymorth ychwanegol ar waith i'r disgyblion hynny nad oeddent yn ymroi i'w dysgu. Mewn llawer o achosion, mae ysgolion wedi addasu'u cwricwlwm ar-lein er mwyn canolbwyntio'n fwy ar faterion iechyd a lles a medrau llythrennedd a rhifedd. Yn aml, caiff cynorthwywyr cymorth dysgu a staff bugeiliol eu defnyddio i roi cymorth ychwanegol i'r disgyblion mwyaf bregus.

Mae ysgolion wedi canfod bod amrywiaeth o ffactorau wedi cynyddu effaith y cyfnod clo hwn ar les disgyblion, er enghraifft tywydd gwael a nosweithiau mwy tywyll. O ganlyniad, mae llawer ohonynt wedi cyflwyno rhai dulliau gwahanol, er enghraifft 'prynhawniau lles', pan gaiff disgyblion eu hannog i wneud gweithgareddau sy'n mynd â nhw oddi wrth sgrin y cyfrifiadur.

**Cameo – Ysgol Uwchradd Aberteifi**

Mewn ymateb i adborth gan rieni, disgyblion a staff, mae arweinwyr Ysgol Uwchradd Aberteifi wedi torri 5 munud oddi ar amser bob gwers er mwyn neilltuo 30 munud ar ddiwedd pob dydd pan gaiff disgyblion gyfarwyddyd i gwblhau tasgau sy'n mynd â nhw oddi wrth y sgrin. Mae'r rhain yn cynnwys darllen llyfr, gwrando ar bodlediad, chwarae offeryn cerdd, mynd am dro, gwneud gwaith celf, pobi ac ioga.

Mae ysgolion wedi parhau i ofyn am adborth disgyblion ar eu profiadau, ac mae rhai wedi datblygu dulliau newydd o fonitro lles disgyblion. Dywed llawer o ysgolion bod cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau i asiantaethau allanol, fel gwasanaethau amddiffyn plant a Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS).

**Cameo – Ysgol Gyfun Gymunedol Rhisga**

Er mwyn gwella dealltwriaeth staff o’r materion a wynebwyd gan ddisgyblion yn ystod y cyfnod clo, mae arweinwyr Ysgol Gyfun Gymunedol Rhisga wedi creu cyflwyniad yn seiliedig ar brofiadau disgyblion, o’r enw ‘sut beth yw bod ochr arall y sgrin’. Mae’r cyflwyniad yn cynnwys fideos ‘pennau’n parablu’, ynghyd â darnau sain a darnau ysgrifenedig sy’n cynnwys disgyblion o bob oed a gallu yn siarad am eu profiadau, yn rhai cadarnhaol a negyddol.

Mae disgyblion hŷn yn parhau i fod yn arbennig o bryderus am y trefniadau ar gyfer arholiadau’r haf hwn. Mae llawer ohonynt dan lefelau uchel o straen oherwydd eu hansicrwydd am y ffordd y byddant yn cael eu hasesu. Mewn ambell achos, mae cynnal eu symbyliad yn her hyd yn oed i’r disgyblion hynny sydd fel arfer yn ymroi’n llwyr i’w dysgu. Yn ogystal, mae disgyblion a fydd yn symud i gyfnod allweddol 4 flwyddyn nesaf yn bryderus, mewn sawl achos, ynghylch dewis eu cyrsiau arholi. Mae hyn yn her arbennig i ysgolion sydd â chyfnod allweddol 4 sy’n para tair blynedd; oherwydd bod y Flwyddyn 8 bresennol wedi cael cyn lleied o amser yn yr ysgol, mae’n anodd iddynt wneud penderfyniadau gwybodus, yn arbennig lle y cawsant brofiad cyfyngedig o’r agweddau ymarferol ar rai pynciau. O ganlyniad, mae ychydig o’r ysgolion hyn wedi dewis dychwelyd i gyfnod allweddol 3 traddodiadol, sy’n para tair blynedd.

Mae ysgolion yn parhau i gynnig darpariaeth gofal plant i blant gweithwyr allweddol a disgyblion bregus. Yn gyffredinol, mae’r niferoedd yn uwch nag yr oeddent yn ystod y cyfnod clo cyntaf, gan fod ysgolion yn gwahodd mwy o ddisgyblion i fynychu’r ddarpariaeth hon. Mewn sawl achos, mae cynorthwywyr addysgu a thimau arwain yn cefnogi’r ddarpariaeth hon.

**Lles staff**

Dywed ysgolion fod athrawon ac ymarferwyr eraill wedi dangos lefelau uchel o ymrwymiad i gefnogi dysgu a lles disgyblion yn ystod y cyfnod clo hwn. Soniodd llawer o athrawon am ymdeimlad cryfach o gymuned a gwaith tîm yn eu hysgolion, er eu bod yn colli’r cyfle i gael cysylltiad uniongyrchol â’u cydweithwyr. Fodd bynnag, mae’r cynllunio sydd ynghlwm â dysgu o bell yn cymryd llawer o amser iddynt, ac maent yn arbennig o bryderus am y trefniadau arholi. Mewn ychydig ysgolion yn ail hanner tymor yr hydref, arweiniodd lefel uchel o absenoldeb ymhlith staff at fwy o bwysau ar eraill. Ar ddiwedd tymor y gwanwyn, dywed ychydig benaethiaid fod staff yn pryderu am ddychwelyd cyn iddynt gael eu brechu. Mae ysgolion wedi defnyddio amrywiaeth o ddulliau i fonitro a chefnogi lles staff, er enghraifft fforymau ar-lein, rheolaidd i staff.

## Dysgu ac addysgu

Yn ystod tymor yr hydref, amrywiodd profiadau dysgu ac addysgu i ddisgyblion a staff yn sylweddol rhwng ysgolion, yn dibynnu ar gyfradd yr achosion o COVID-19 yn y gymuned leol. Treuliodd rhai disgyblion y rhan fwyaf o’r tymor yn yr ysgol, ond roedd yn rhaid i eraill dreulio cyfnodau sylweddol yn hunanynysu gartref. Roedd

cynllunio cyfuniad o wersi wyneb yn wyneb a gweithgareddau dysgu o bell wedi gosod baich sylweddol ar staff mewn rhai ysgolion.

Roedd addysgu o dan ganllawiau cadw pellter cymdeithasol wedi achosi amrywiaeth o heriau i staff. Yn benodol, gorfodwyd iddynt addysgu 'wrth flaen y dosbarth', gan effeithio ar eu gallu i ryngweithio â disgyblion a rhoi adborth unigol iddynt. Fe wnaeth rheoli'r trosglwyddo rhwng gwersi achosi anawsterau sylweddol i staff mewn ambell achos. Wrth i'r tymor fynd yn ei flaen, dywedodd ysgolion fwyfwy fod staff yn blino ar drefniadau'r pandemig, er eu bod yn gadarnhaol o hyd bod y disgyblion yn ôl yn yr ysgol.

Yn ystod yr ail gyfnod clo, teimlai disgyblion ac athrawon yn gyffredinol eu bod wedi'u paratoi'n well o lawer ar gyfer dysgu o bell. Dyma'r achos yn arbennig mewn ysgolion lle y bu'n rhaid i grwpiau o ddisgyblion hunanynysu yn ystod tymor yr hydref. Yn yr ysgolion hyn, parhaodd athrawon i archwilio a datblygu amrywiaeth o ymagweddau at gynllunio profiadau dysgu ar-lein.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae cyfran y 'gwersi byw' a ddarparwyd yn ystod yr ail gyfnod clo wedi cynyddu'n sylweddol. Wrth i hyder staff gynyddu wrth gyflwyno'r gwersi hyn, maent wedi arbrofi ymhellach â phlatfformau digidol. Er enghraifft, mae rhai ohonynt wedi defnyddio'r cyfleuster 'sgwrsio' i gynnal deialog gyda disgyblion wrth iddynt gwblhau eu gwaith ar-lein; mae eraill wedi defnyddio 'ystafelloedd ymneilltuo' i gynnal trafodaethau grwpiau bychain.

Dywed llawer o ysgolion fod eu hymagweddau diwygiedig at ddysgu o bell wedi cael effaith gadarnhaol ar annibyniaeth rhai disgyblion a'u dyfalbarhad wrth ddysgu. Er enghraifft, mae athrawon wedi darparu tasgau adolygu gyda disgrifiadau llafar sy'n rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu technegau arholi a medrau adolygu annibynnol. Fodd bynnag, mae ychydig ddisgyblion yn ei chael hi'n anodd cymryd rhan mewn gweithgareddau ar-lein a dywedant fod y gwaith y mae'n rhaid iddynt ei gwblhau'n annibynnol yn eu llethu. Mewn ambell achos, nid yw athrawon wedi addasu cynnwys eu gwersi i sicrhau bod tasgau ac adnoddau yn addas ar gyfer dysgu o bell.

Ar y cyfan, mae arweinwyr yn pryderu bod yr ymgysylltu â dysgu wedi amrywio yn ystod y cyfnod clo. Mae athrawon yn arbennig o bryderus am ymgysylltiad disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'r disgyblion hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Yn ogystal, er bod systemau mwy sensitif i fonitro ymgysylltiad disgyblion, mae gwerthuso'u hymgysylltiad yn fanwl yn her o hyd. Er enghraifft, gall disgyblion fewngofnodi ar gyfer gwers fyw ond ni fyddant yn cymryd rhan nac yn canolbwyntio yn ystod y wers, neu ni fyddant yn cwblhau'r gwaith cysylltiedig.

Oherwydd yr amrywiaeth yn yr ymgysylltiad, dywed athrawon ei bod hi'n anodd cynllunio'n briodol ar gyfer cynnydd pob disgybl, ac maent yn pryderu am ail-ymgysylltiad disgyblion pan fyddant yn dychwelyd i'r ysgol. Er enghraifft, bydd rhai disgyblion mewn dosbarth wedi cwblhau'r holl waith gosod, a mwy, ond bydd eraill wedi cwblhau bach iawn o waith, os o gwbl.

Mae llawer o ysgolion yn parhau i bryderu am fedrau llythrennedd a rhifedd sylfaenol disgyblion. Lle'r oedd ysgolion yn gallu cynnal asesiadau gwaelodion o fedrau

disgyblion yn ystod tymor yr hydref, dywedodd llawer ohonynt fod rhai disgyblion wedi cymryd camau sylweddol yn ôl yn y meysydd hyn. Yn benodol, mynegodd ysgolion bryderon am allu disgyblion i gynhyrchu gwaith ysgrifennu estynedig o ansawdd uchel. Mae rhai ohonynt yn pryderu bod dibynnu ar 'wiriwr sillafu' wedi gostwng hyder ac annibyniaeth disgyblion wrth gywiro'u sillafu a'u gramadeg eu hunain. Yn gyffredinol, mae ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi gweld gostyngiad yn amrywiaeth geirfa Gymraeg disgyblion a'u defnydd o Gymraeg llafar.

**Cameo – Ysgol Uwchradd Aberteifi**

Roedd athrawon yn Ysgol Uwchradd Aberteifi yn pryderu am wybodaeth bynciol disgyblion a'u gallu i adalw dysgu blaenorol. Cyflwynont gysyniad o'r enw 'pump y dydd'. Mae hyn yn cynnwys gofyn pum math o gwestiwn i ddisgyblion am yr amcan dysgu ar gyfer pob gwers. Mae'r cwestiynau hyn wedi'u seilio ar bynciau neu fedrau sy'n berthnasol i'r amcan a ddysgont yn y wers ddiwethaf, yr wythnos ddiwethaf, y tymor diwethaf a'r flwyddyn ddiwethaf, a'r cysylltiad â gwers y diwrnod hwnnw.

Wrth i ysgolion ennill mwy a mwy o brofiad o gynllunio dysgu ar-lein, mae arweinwyr mewn rhai ysgolion wedi gweithio gyda'r staff i ystyried sut y gall egwyddorion craidd, fel esbonio, modelu a holi, gael eu cymhwyso i ddysgu wyneb yn wyneb ac i ddysgu o bell. Mae hyn wedi helpu athrawon i fyfyrio ar sut y gallant adeiladu ar wybodaeth a medrau blaenorol, rhoi cyfarwyddiadau clir, modelu a sgaffaldio gwaith yn glir, cynllunio amrywiaeth o weithgareddau, a nodi a mynd i'r afael â chamsyniadau mewn lleoliadau byw ac ar-lein.

Yn ystod yr ail gyfnod clo, mae ysgolion wedi parhau i ddatblygu amrywiaeth o ymagweddau at asesu gwaith disgyblion a rhoi adborth iddynt. Er enghraifft, mae rhai ohonynt wedi defnyddio meddalwedd sy'n eu galluogi i recordio adborth ar lafar i ddisgyblion am eu gwaith; mae eraill yn rhoi adborth ysgrifenedig 'byw' wrth i ddisgyblion gwblhau gwaith mewn ystafell ddosbarth ddigidol i fynd i'r afael â chamsyniadau ac ysgogi gwelliannau. Fodd bynnag, ar y cyfan, mae asesu cynnydd a rhoi adborth ystyrlon i ddisgyblion wedi bod yn her sylweddol i ysgolion yn y cyfnod clo.

**Cameo – Ysgol y Creuddyn**

Yn Ysgol y Creuddyn, mae'r adran fathemateg wedi bod yn arbrofi ag ymagweddau at asesu ffurfiannol ar-lein. Yn ystod sesiynau addysgu byw, maent wedi bod yn defnyddio meddalwedd amrywiol fel Google forms a byrddau gwyn mini, rhithwir, i brofi dealltwriaeth disgyblion o gysyniadau ac i lywio'r camau addysgu nesaf. Hefyd, maent wedi bod yn defnyddio holi diagnostig amlddewis i fesur dealltwriaeth disgyblion ac amlygu camsyniadau disgyblion yn gynnar yn ystod yr addysgu, fel nad yw'r camsyniadau'n magu gwreiddiau.

Yn gyffredinol, mae ymateb yr ysgolion i heriau'r pandemig wedi cryfhau'r cydweithredu o fewn ac ar draws meysydd pwnc neu feysydd dysgu a phrofiad. Dywed llawer o ysgolion fod mwy o gydweithredu a rhannu arfer dda wedi gostwng baich gwaith ac wedi cael effaith gadarnhaol ar ddysgu proffesiynol y staff ac

ansawdd yr adnoddau dysgu.  Mewn llawer o ysgolion, mae athrawon ac arweinwyr o’r farn bod hyn wedi cryfhau’u dealltwriaeth o’r ffordd y mae cydweithwyr yn cynllunio ac yn cyflwyno dysgu ac mae wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hymarfer eu hunain.

## Cymwysterau ac arholiadau

Dros gyfnod y pandemig, mae llawer o ysgolion wedi canolbwyntio’n drwm ar roi cymorth i grwpiau blynyddoedd arholi.  Mae ysgolion yn falch bod y grwpiau blwyddyn hyn wedi dychwelyd i’r ysgol erbyn hyn ac mae’r rhan fwyaf o ysgolion yn blaenoriaethu dysgu ac addysgu i gefnogi disgyblion wrth paratoi ar gyfer asesu.

Ar y cyfan, oherwydd COVID-19, mae ysgolion o’r farn mai dyfarnu graddau wedi’u pennu gan ganolfannau yw'r opsiwn tecaf i ddisgyblion, a chroesawont y cyhoeddiad hwn gan Lywodraeth Cymru.  Fodd bynnag, teimlai llawer o ysgolion fod diffyg manylder yn y cyhoeddiad wedi ychwanegu at bryder staff, disgyblion a rhieni ar adeg sydd eisoes yn anodd.  Yn sgil cyhoeddi’r manylion, mae ysgolion yn gweithio gyda rhieni a disgyblion i ddatblygu’u dealltwriaeth o’r broses ac i leddfu unrhyw bryder.  Er enghraifft, er mwyn tawelu pryderon disgyblion, mae rhai ysgolion wedi cynnal gwasanaethau penodol i esbonio’r penderfyniad a’i oblygiadau, ac mae rhai ohonynt wedi datblygu fideo i rieni a disgyblion i esbonio’r broses a’r amserlenni ar gyfer asesu.  Mae ysgol arall yn rhoi adroddiadau interim i ddisgyblion bob hanner tymor.  Maent wedi diwygio’r rhain i sicrhau bod disgyblion a rhieni’n cael gwybod yn llawn am dargedau, graddau disgwyliedig a lefelau ymdrech disgyblion.

**Cameo – Ysgol Maes y Gwendraeth**

Er mwyn rhoi gwybod i rieni am y newidiadau i weithdrefnau asesu a chymwysterau 2021, mae Ysgol Maes y Gwendraeth wedi dosbarthu taflen ddwyieithog i holl rieni/gofalwyr disgyblion Blynyddoedd 11, 12 a 13.  Mae’r taflenni hyn yn amlygu’r prif negeseuon allweddol ac yn rhoi’r diweddaraf i rieni am eu penderfyniadau ynghylch graddau wedi’u pennu gan ganolfannau, y prosesau sicrhau ansawdd, adolygu graddau a’r broses apelio.  Hefyd, mae wedi trefnu gweminar yn Gymraeg a Saesneg i rieni yn rhoi diweddariad ac arweiniad iddynt ar y trefniadau asesu gwahanol ar gyfer TGAU, Safon UG a Safon Uwch yn ystod haf 2021, ac amserlen yr ysgol.  Gall rhieni ofyn unrhyw gwestiynau trwy’r cyfleuster sgwrsio.

Mae pryder mewn ysgolion ynghylch y baich gwaith sy’n gysylltiedig â phroses y graddau wedi’u pennu gan ganolfannau, a’r broses apelio yn benodol.  Mae llawer o ysgolion yn gweithio gydag ysgolion eraill i ddatblygu prosesau, polisïau a phrotocolau ar y cyd, ynghyd â thempledi ffurflenni a llythyron.  Maent yn ystyriol o’r ffaith y gallai eu penderfyniadau gael eu herio.  Yn ogystal, mae rhai ysgolion yn defnyddio prosesau safoni cymheiriaid i gynnal hyder ymhellach yn y prosesau asesu ac apelio.  Mewn rhai achosion, caiff safoni ei ddefnyddio’n fewnol fel proses ryngadrannol ac, mewn achosion eraill, mae ysgolion yn gweithio gydag ysgolion eraill yn eu hawdurdod lleol i safoni graddau.  Er bod ysgolion yn gwerthfawrogi’r deunyddiau sy’n cael eu rhannu i ategu proses y graddau wedi’u pennu gan

ganolfannau, maent yn bryderus hefyd am faint o wybodaeth a dysgu proffesiynol y mae angen eu cymathu, ac maent yn rhwystredig bod deunyddiau'n aml yn cael eu rhannu'n hwyr.

Mae pryder cyffredinol ynghylch lles staff oherwydd y baich gwaith sydd ynghlwm â graddau wedi'u pennu gan ganolfannau a choladu tystiolaeth. Mae athrawon yn teimlo dan bwysau i gwblhau cymaint o'r cyrsiau arholi â phosibl ac i gasglu tystiolaeth am gynnydd disgyblion er mwyn llywio graddau wedi'u pennu gan ganolfannau. Yn ogystal, mae pryderon am adrannau sydd ag un aelod staff yn unig a'r baich gwaith a'r pwysau i 'gael hyn yn gywir'. I gefnogi athrawon, mae timau maes pwnc mewn un ysgol wedi llunio cynllun ar sail y dystiolaeth sydd ganddynt yn barod, beth sydd ar goll a sut y gallent fynd i'r afael ag unrhyw feysydd sy'n brin o dystiolaeth. Mewn ysgol arall, maent wedi blaenoriaethu asesiadau di-arholiad ac wedi nodi beth y gall disgyblion ei wneud o gartref. Maent wedi cyflwyno rhaglen adolygu helaeth ac wedi enwebu deuddydd yr wythnos yn benodol yn ddiwrnodau asesiadau di-arholiad.

Mae ysgolion yn awyddus i osgoi llethu disgyblion gan asesiadau. Dywed rhai ysgolion fod disgyblion yn teimlo bod popeth a wnânt yn cael ei asesu a bod hyn yn ychwanegu at y pwysau sydd arnynt yn barod. Yn ogystal, mae ysgolion yn ymwybodol o'r pryder sydd gan rai disgyblion ynghylch gwaith blaenorol na fwriadwyd i'w asesu, ond sydd bellach yn rhan o dystiolaeth asesu. I helpu lleddfu hyn, mae un ysgol wedi cyflwyno llwybr asesu disgyblion i egluro'r tasgau a'r dyddiadau allweddol.

**Cameo – Ysgol Gyfun Brynteg**

I gefnogi disgyblion a chynnal eu hymgysylltiad, mae Ysgol Gyfun Brynteg yn cyflwyno'r rhaglen arweiniad a chyngor i ddisgyblion ym Mlwyddyn 11 yn gynnar i edrych ar yr hyn y byddant yn ei wneud ym Mlwyddyn 12. Mae'r ysgol wedi ehangu'r cynnig ac wedi llunio prosbectws newydd i annog disgyblion i barhau i ymgysylltu â'r ysgol ar ôl cyflwyno graddau, ac i'w helpu i deimlo'n fwy hyderus a brwdfrydig am y dyfodol.

Mae llawer o ysgolion yn pryderu am les a chynnydd disgyblion ym Mlwyddyn 11 gan fod rhai ohonynt wedi colli dros 50% o'u hamser wyneb yn wyneb yn yr ysgol ers mis Medi. Mae rhai ysgolion o'r farn bod rhai o'r disgyblion hyn wedi'i chael hi'n anodd ymgysylltu â'u gwaith gartref ac, felly, nid ydynt yn barod ar gyfer dychwelyd i'r ysgol. Mae disgyblion Blwyddyn 12 yn bryder penodol i ysgolion. Ni fydd y disgyblion hyn wedi sefyll arholiadau allanol ym Mlynyddoedd 11 na 12 ac mae ysgolion o'r farn na fyddant wedi cael digon o ymarfer arholi erbyn iddynt gyrraedd diwedd Blwyddyn 13. Dywed ysgolion fod rhai disgyblion ym Mlwyddyn 13 yn fwy amharod i wneud cais am leoedd mewn prifysgol oherwydd diffyg hyder.

## Cwricwlwm

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, ceisiodd arweinwyr gynnig profiad mor arferol â phosibl i ddisgyblion yn ystod y cyfnod rhwng Medi a Rhagfyr, o dan yr amgylchiadau. Ar

ddechrau tymor yr hydref, mewn llawer o ysgolion, cafodd disgyblion cyfnod allweddol 3 eu haddysgu mewn swigod dosbarth mewn un ystafell ddosbarth, gydag athrawon yn symud rhwng ystafelloedd dosbarth, a disgyblion cyfnod allweddol 4 yn symud rhwng ystafelloedd dosbarth. Er mwyn creu swigod sydd mor fach â phosibl, mae llawer o ysgolion wedi newid trefniadau eu lleoliad neu eu trefniadau bandio yng nghyfnod allweddol 3. Mewn llawer o achosion, caiff disgyblion eu haddysgu mewn dosbarthiadau gallu cymysg, yn eu dosbarthiadau blwyddyn yn aml, ar gyfer eu holl wersi. Os na chaiff gwaith ei wahaniaethu'n addas, gall hyn fod yn rhwystredig i ddysgwyr uwch eu gallu ac yn heriol i'r rhai y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Mewn ychydig achosion, mae ysgolion wedi defnyddio grwpiau chwarter neu hanner blwyddyn er mwyn cadw swigod yn fach, ond hefyd i ganiatáu elfen o osod disgyblion mewn setiau. Mewn achosion eraill, caiff disgyblion eu haddysgu yn ôl grwpiau gallu ar gyfer eu holl wersi. Mewn ychydig ysgolion a arferai fod â chyfnod allweddol 4 tair blynedd, mae arweinwyr wedi penderfynu dychwelyd i fodel TGAU dwy flynedd. Dywedont na fyddai'n deg i ddisgyblion Blwyddyn 8 wneud dewisiadau mor gynnar yn dilyn y tarfu ar eu hamser yn yr ysgol uwchradd, a'u bod wedi cael bach iawn o brofiad o elfennau ymarferol rhai pynciau.

Mae pynciau sydd ag agwedd ymarferol sylweddol iddynt wedi wynebu heriau sylweddol yn ystod y pandemig. Pan roedd disgyblion yn yr ysgol yn ystod tymor yr hydref, mabwysiadodd ysgolion amrywiaeth o ddulliau i geisio sicrhau bod disgyblion, yn enwedig disgyblion sy'n dilyn cyrsiau arholi, wedi cael digon o fynediad diogel at gyfleusterau arbenigol ar gyfer y gwersi hyn. Fodd bynnag, mewn rhai ysgolion, dim ond mynediad cyfyngedig a gafodd disgyblion cyfnod allweddol 3 i'r cyfleusterau hyn yn ystod y cyfnod hwn ac roedd y gwersi'n canolbwyntio'n drwm ar theori. Yn ystod yr ail gyfnod clo, mae llawer o ysgolion wedi datblygu dulliau i alluogi disgyblion i wneud gwaith ymarferol, er enghraifft trwy osod tasgau sy'n defnyddio adnoddau sydd ar gael yn y cartref. Fodd bynnag, mae'r agwedd hon yn parhau i fod yn her sylweddol i'r meysydd pwnc hyn. Dywedodd lleiafrif o ysgolion fod diffyg gweithgareddau ymarferol yn cael effaith negyddol ar agweddau disgyblion at ddysgu, yn enwedig i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 sy'n astudio cyrsiau galwedigaethol.

Mae arweinwyr ysgol yn pryderu bod cyfyngiadau ar weithgareddau allgyrsiol a phrofiadau dysgu ehangach cyfyngedig yn cael effaith niweidiol ar ddatblygiad medrau personol a chymdeithasol disgyblion. O ganlyniad, mae llawer o ysgolion wedi cyflwyno gwersi lles i'r cwricwlwm.

Cyn yr ail gyfnod clo, cynigiodd ysgolion amrywiaeth o ymyriadau i ddisgyblion yr oedd angen cymorth ychwanegol arnynt. Er eu bod wedi ymdrechu i gynnal y ddarpariaeth hon yn ystod cyfnodau pan roedd disgyblion yn dysgu gartref, er enghraifft trwy neilltuo cynorthwywyr cymorth dysgu i weithio o bell gyda disgyblion unigol neu grwpiau bach o ddisgyblion, mae hyn wedi bod yn her sylweddol i'r rhan fwyaf o ysgolion. Mae ychydig o ysgolion wedi ychwanegu gwers ymyrryd ychwanegol at ddiwedd y diwrnod ysgol. Fwyfwy yn ystod yr ail gyfnod clo, mae ysgolion wedi gwahodd disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol neu ddisgyblion sy'n cael trafferth ymroi i waith ysgol i weithio yn yr ysgol er mwyn cael cymorth.

Ar y cyfan, mae ysgolion sy'n gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion a cholegau eraill i ddarparu cyrsiau wedi parhau i gydweithredu. Mewn lleiafrif o achosion, ni fu

modd cynnal cyrsiau ymarferol a ddarperir oddi ar y safle, neu mae'r ddarpariaeth yn cynnwys llai o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol.

## Cwricwlwm i Gymru

Mae'r cynlluniau ar gyfer Gweithredu Cwricwlwm i Gymru yn amrywio'n fawr o fewn y sector uwchradd.  Mae llawer o ysgolion yn datgan bod cynlluniau wedi cael eu hatal oherwydd eu bod yn delio â materion gweithredol yn gysylltiedig â COVID-19 a'u bod wedi cael llai o amser i gynllunio'n strategol.  Mewn ysgolion lle nad yw'r cynlluniau ar gyfer y cwricwlwm wedi'u datblygu cymaint, mae arweinwyr o'r farn ei bod hi'n anodd creu gweledigaeth a chynllunio'r ddarpariaeth heb allu cyfarfod yn gorfforol i drafod.  Mae ychydig o ysgolion wedi parhau â'u cynlluniau i ddatblygu Cwricwlwm i Gymru, er yn rhithwir.  Mae ysgolion yr oedd ganddynt gynlluniau datblygedig ar gyfer y cwricwlwm newydd cyn y pandemig wedi parhau i fireinio'u darpariaeth.

Mae llawer o ysgolion wedi nodi manteision a ysgogwyd gan y pandemig a allai gefnogi datblygiad Cwricwlwm i Gymru.  Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr yn sôn bod y gwelliant ym medrau digidol staff a disgyblion o fudd mawr a fydd yn cynorthwyo â chyflwyno'r cwricwlwm newydd.  Hefyd, maent yn croesawu'r ffocws o'r newydd ar gefnogi iechyd meddwl a lles meddwl disgyblion.  Mae ychydig o benaethiaid wedi nodi bod arweinwyr, yn ystod y pandemig, wedi datblygu gwell dealltwriaeth o waith trawsgwricwlaidd, p'un a yw hynny drwy brosiectau neu waith thematig y gallai disgyblion eu cwblhau gartref.  Mae eraill o'r farn y bu mwy o amser ar gyfer dysgu proffesiynol ynghylch addysgu ac ysbryd o arloesi, arbrofi a chreadigrwydd.  Mae arweinwyr o'r farn bod y datblygiadau hyn yn paratoi staff yn dda ar gyfer agweddau ar Cwricwlwm i Gymru.  Mae ychydig benaethiaid o'r farn y gallai diwygio'r cwricwlwm fod yn amserol yn dilyn y pandemig, oherwydd bydd angen ailadeiladu'r cwricwlwm a bydd angen myfyrio ar ddulliau addysgu.

Mae'r ysgolion hynny a oedd yn ysgolion arloesi yn teimlo'u bod wedi'u paratoi'n dda ar gyfer 2022.  Ar y cyfan, fodd bynnag, nid yw ysgolion yn teimlo bod yr ysgolion hyn wedi ymgysylltu'n ddigon da ag ysgolion eraill i gynorthwyo â datblygu'r cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi datblygu cynlluniau ar gyfer dysgu proffesiynol i gefnogi datblygiad Cwricwlwm i Gymru.  Fodd bynnag, bu'n rhaid i fwyafrif yr ysgolion ohirio llawer o'r dysgu proffesiynol y bwriadwyd ei gynnal yn nhymor yr hydref i ganolbwyntio ar flaenoriaethau a ysgogwyd gan y pandemig.  Ar y cyfan, maent wedi cynllunio ailddechrau hyn yn nhymor y gwanwyn.  Fodd bynnag, mae lleiafrif o ysgolion wedi atal hyn ymhellach o ganlyniad i'r cyfnod clo ychwanegol.  Mae'r arweinwyr hyn o'r farn ei bod yn bwysig bod eu holl staff yn yr ysgol i gymryd rhan yng nghamau cychwynnol datblygu'r weledigaeth ar gyfer y cwricwlwm ac addysgu.  Fodd bynnag, mae ychydig arweinwyr ysgol yn teimlo nad ydynt wedi gallu cynllunio na chyflwyno unrhyw ddysgu proffesiynol ar gyfer Cwricwlwm i Gymru yn ystod y cyfnod hwn.

**Cameo – Ysgol Gymunedol Cenydd Sant**

Pan ddaeth y cyfnod clo cyntaf i rym, roedd Ysgol Cenydd Sant wrthi'n dechrau ei gweithgareddau dysgu proffesiynol yn seiliedig ar ystyried ei gweledigaeth a'i gwerthoedd yng ngoleuni Cwricwlwm i Gymru. O ganlyniad i'r amgylchiadau, bu'n rhaid i arweinwyr addasu'u cynlluniau ar gyfer dysgu proffesiynol ar Cwricwlwm i Gymru. Mae arweinwyr wedi paratoi cyfres o ddarnau gwyntyllu, neu 'thunks', i annog staff ym mhob maes dysgu a phrofiad i gydweithio ar eu maes. Hefyd, maent wedi cynllunio rhaglen dysgu proffesiynol ar agweddau amrywiol ar ddylunio'r cwricwlwm. Mae hyn yn cynnwys darparu erthyglau a deunyddiau darllen, ynghyd â fideos pennau parablu a sesiynau dysgu proffesiynol ar-lein ar y pynciau hyn. Yn ogystal, mae arweinwyr wedi datblygu porth ymchwil weithredol ar y we i staff er mwyn cefnogi dysgu a datblygiad proffesiynol ar gyferCwricwlwm i Gymru ac i hwyluso trafodaethau a rhannu syniadau yn 'rhithwir'.

**Cameo – Ysgol Stanwell**

Fel rhan o'u rhaglen dysgu proffesiynol i ategu datblygiad Cwricwlwm i Gymru, mae arweinwyr yr ysgol yn cynllunio sesiynau dysgu proffesiynol wythnosol ac maent wedi cynnwys diwrnodau cynllunio cydweithredol i arweinwyr. Mae'r rhain yn cynnwys disgyblion fel 'ymgynghorwyr ar y cwricwlwm' i gynorthwyo staff i ddatblygu cwricwlwm y mae diddordebau ac anghenion eu disgyblion yn sylfaen iddo.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn gwybod am ddogfen 'Y Daith i 2022' ac mae mwyafrif ohonynt yn dechrau ei defnyddio i ategu a llywio'u cynllunio. Ar y cyfan, mae ysgolion yn croesawu'r canllaw hwn ac maent o'r farn y bydd yn eu cefnogi'n dda wrth iddynt ddechrau datblygu'u hymagweddau at ddylunio a darparu'r cwricwlwm.

## Dysgu proffesiynol

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi parhau i ganolbwyntio'u dysgu proffesiynol ar ddatblygu medrau digidol a gwella dysgu o bell, gan ddefnyddio'r hyn a ddysgont o'r cyfnod clo cyntaf. Hefyd, maent wedi rhoi gwybod i staff am y gweithdrefnau gweithredol diweddaraf yn gysylltiedig â COVID-19. Wrth i staff ddod yn fwy hyderus a medrus wrth ddefnyddio platfformau a rhaglenni digidol, mae ysgolion wedi gallu canolbwyntio'n llai ar wella medrau staff ynghylch sut i ddefnyddio platfformau, i ystyried y strategaethau mwyaf effeithiol ar gyfer dysgu o bell a sut orau y gallant ddefnyddio adnoddau digidol. Mae mwyafrif o ysgolion wedi canolbwyntio'u dysgu proffesiynol ar eu strategaeth dysgu ac addysgu, a sut y gall platfformau digidol ategu'u dull presennol. Yn ogystal, mae llawer o ysgolion wedi parhau i gynnig cymorth i athrawon ddatblygu'u dealltwriaeth o Anghenion Dysgu Ychwanegol a chynorthwyo staff i ymateb i'r newidiadau yn anghenion yr holl ddisgyblion. Yn fwy diweddar, mae ysgolion yn canolbwyntio ar gefnogi staff yn ystod proses y graddau wedi'u pennu gan ganolfannau.

Mae llawer o arweinwyr a staff o’r farn bod y pandemig wedi ysgogi datblygiadau cadarnhaol o ran dysgu proffesiynol. Mae’r cynnig dysgu proffesiynol ar-lein, ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol, yn helaeth erbyn hyn, mae ar gael i bawb ac yn hygyrch gan fod yr angen i deithio wedi’i ddileu ac, yn aml, ni chodir tâl amdano. Bellach, gall staff gael at amrywiaeth enfawr o gyfleoedd dysgu proffesiynol ar adeg sy’n addas iddyn nhw. O ganlyniad, dywed llawer o ysgolion fod staff yn ymddiddori’n fwy yn eu dysgu proffesiynol eu hunain a’u bod yn dwyn mwy o berchenogaeth ar eu datblygiad proffesiynol eu hunain. Mae rhai ysgolion wedi gofyn i’r holl staff nodi agweddau penodol ar eu dysgu proffesiynol eu hunain yr hoffent eu datblygu a’r gweithgareddau ar-lein y byddent yn mynd ati i’w gwneud i wneud hynny. O ganlyniad, ymgymerodd staff ag amrediad eang o weithgareddau, yn amrywio o gyrsiau iechyd a diogelwch achrededig neu gyrsiau Cynorthwyydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol i staff cymorth a chynorthwywyr addysgu, i athrawon yn gweithio’n rhithwir gydag athrawon o ysgolion eraill ar brosiectau ymchwil. Mae llawer o arweinwyr yn bwriadu datblygu ymagwedd gyfunol a mwy hyblyg at ddysgu proffesiynol yn y dyfodol. Mae ychydig o arweinwyr o’r farn bod y pandemig wedi cael effaith negyddol ar eu cynlluniau dysgu proffesiynol.

Dywed llawer o arweinwyr fod dysgu proffesiynol ar-lein hefyd yn cynnig cyfleoedd i rwydweithio a rhannu ymarfer gyda staff yn yr ysgol ac mewn ysgolion eraill. Er bod ysgolion yn cydnabod bod anfanteision o safbwynt y cyfleoedd am drafodaethau grŵp effeithiol a cholli rhyngweithio anffurfiol yn yr ysgol, mae llawer o arweinwyr o’r farn bod y sefyllfa wedi arwain at fwy o rannu ymarfer nag a ddigwyddai cyn y pandemig. Mae llawer o arweinwyr o’r farn bod y pandemig wedi annog staff i fod yn fwy hyderus wrth rannu a datblygu’u hymarfer a’i fod wedi rhoi mwy o gyfleoedd i athrawon arsylwi ei gilydd yn addysgu. Croesawant y diwylliant mwy agored a myfyriol a ddatblygwyd. Hefyd, teimlant fod y diwylliant wedi gwneud i staff ganolbwyntio’n fanylach ar ddysgu ac addysgu mewn cyfarfodydd.

**Cameo – Ysgol Gyfun Gwent Is Coed**

Yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed, mae uwch arweinwyr yn creu cylchlythyr addysgeg pythefnosol i staff. Mae hwn yn crynhoi a choladu syniadau ynghyd o blatfformau’r cyfryngau cymdeithasol, blogiau ac erthyglau, ac mae’n gofyn cwestiynau penodol i’w trafod mewn cyfarfodydd adran.

Mae rhannu arfer dda ymhlith staff yn ganolog i ddatblygu addysgeg gan yr ysgol yn ystod y pandemig. Mae pob adran neu faes yn casglu enghreifftiau o arfer dda, er enghraifft trwy gipluniau o arfer effeithiol a nodwyd gan benaethiaid adran mewn gwersi. Mae’r ysgol wedi datblygu gwefan a rhestr chwarae i staff, sy’n rhoi man canolog iddynt droi at adnoddau i ategu addysgu o bell. Er enghraifft, mae dolenni cyflym i enghreifftiau o arfer dda, fideos ‘sut i...’, sleidiau’n cynnwys darnau o amrywiaeth o wersi, dolenni i apiau a gwefannau defnyddiol, ynghyd â sleidiau cytunedig y mae’r holl staff yn eu defnyddio i gyflwyno a gorffen gwersi o bell.

Mae uwch arweinwyr yn cynnal cyfarfodydd staff ar Google Meet, fel bod staff yn deall profiadau disgyblion yn well wrth iddynt fynychu’r cyfarfodydd fel y byddai’r disgyblion yn gwneud. Mae uwch arweinwyr yn modelu arfer addysgegol orau yn ystod y cyfarfodydd. Er enghraifft, defnyddiant Google Slides i fodelu sut gall disgyblion weithio’n gydweithredol a sut gall staff fonitro pob disgybl yn ystod gwersi byw, fel y byddent mewn ystafell ddosbarth.

Mae lleiafrif o ysgolion wedi annog eu hathrawon i ddatblygu ymagweddau at ymholi proffesiynol.  Mae hyn yn canolbwyntio, ar y cyfan, ar agweddau a fydd yn gwella ansawdd dysgu ac addysgu o bell ac wyneb yn wyneb.  Mewn sawl achos, mae arweinwyr o’r farn bod y pandemig wedi annog mwy o staff i ymgysylltu â gwaith ymchwil.

**Cameo – Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe**

Mae gan Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe dîm ymchwil i archwilio dulliau effeithiol o addysgu ac asesu.  Mae’r tîm yn cynnwys uwch arweinwyr ac athrawon ac mae’n gyfrifol am ymchwilio i wahanol ddulliau addysgu ac asesu, ac am sicrhau bod pob penderfyniadau am ddysgu ac addysgu wedi’u seilio ar yr ymchwil ddiweddaraf.  Ar hyn o bryd, mae gan yr ysgol bedwar prif faes ffocws ar gyfer yr ymchwil hon: gwella medrau llythrennedd disgyblion, esboniadau a modelu, gwirio dealltwriaeth a datblygu medrau dysgu annibynnol.

Mae’r tîm ymchwil yn nodi ymchwil berthnasol ac yn ymgysylltu â’r holl staff i nodi anghenion hyfforddi.  Defnyddir y canfyddiadau hyn i helpu’r ysgol i gynllunio’i dull dysgu proffesiynol.  Mae arweinwyr o’r farn bod hyn yn cefnogi staff yn dda.  Er enghraifft, mae’r dysgu proffesiynol i ddatblygu holi gan athrawon a thargedu camsyniadau wedi cynorthwyo athrawon i wella’u holi yn ystod gweithgareddau dysgu o bell.

Mae’r tîm ymchwil yn cynhyrchu a rhannu adnoddau gyda’r holl staff, ar sail ei ganfyddiadau.  Mae athrawon yn defnyddio’r adnoddau hyn ac wedyn yn rhoi adborth i’r tîm ymchwil ar eu heffeithiolrwydd.  Mae hyn yn galluogi’r tîm ymchwil i ddefnyddio adborth i wella adnoddau a datblygu dulliau dysgu ac addysgu.

**Cameo – Ysgol Gyfun Gŵyr**

Yn ei rôl fel un o ysgolion dysgu proffesiynol Llywodraeth Cymru ac fel ysgol arweiniol ar gyfer dysgu proffesiynol yn rhanbarth ERW, mae Ysgol Gyfun Gŵyr yn defnyddio ymholi proffesiynol i ddatblygu’i chynllunio ar gyfer cyflwyno’r Cwricwlwm i Gymru.  Nod y dull hwn yw datblygu dealltwriaeth staff o egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru a strategaethau ar gyfer ei wreiddio’n llwyddiannus.  Yng ngoleuni hyn, penderfynodd arweinwyr neilltuo gwers i’r holl staff, bob pythefnos, fel gwers ymholi.  Mae hon yn gyfle i bori erthyglau, casglu data, cyfweld â dysgwyr a llunio strategaethau i gyfoethogi gweithgareddau addysgu, dysgu ac asesu ar gyfer dysgu.

Mae llawer o ysgolion wedi parhau i droi at y cymorth y mae’r consortia rhanbarthol a’r awdurdodau lleol wedi’i ddarparu.  Yn gyffredinol, mae’r cymorth hwn wedi bod yn ddefnyddiol i ysgolion.  Mae arweinwyr wedi bod yn arbennig o gadarnhaol ynghylch y cynnig dysgu proffesiynol ar-lein ac argaeledd sesiynau wedi’u recordio.  Teimlant ei fod wedi gostwng amser teithio a bod mwy o staff wedi gallu troi at yr hyfforddiant.

Mae ysgolion wedi gweithio gyda chonsortia rhanbarthol i ddarparu dysgu proffesiynol i athrawon newydd gymhwyso (ANG).  Yn gyffredinol, serch hynny, mae’r ddarpariaeth ar gyfer ANG yn amrywio ar draws ysgolion.  Gan amlaf, mae

ANG yn cymryd rhan yn rhaglen yr ysgol gyfan ar gyfer dysgu proffesiynol. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid yw athrawon newydd gymhwyso yn cael cymorth ychwanegol i ddatblygu'u haddysgu. Mae llawer o ysgolion yn poeni am eu ANG, oherwydd y cawsant gyn lleied o brofiad addysgu wyneb yn wyneb y llynedd.

Mae amrywio tebyg yn y ddarpariaeth ar gyfer myfyrwyr addysg gychwynnol athrawon (AGA). Er enghraifft, dechreuodd myfyrwyr o un brifysgol addysgu'n gynt na myfyrwyr o brifysgol arall, gan olygu'u bod wedi ennill mwy o brofiad ac ymarfer. Yn yr un modd, mewn rhai ysgolion, maent yn helpu i gyflwyno'r gwersi byw ochr yn ochr ag athrawon, ond mewn ysgolion eraill, nid ydynt yn cael unrhyw brofiad o addysgu byw.

## Arweinyddiaeth

### Hyblygrwydd a gweithio ystwyth

Mae arweinwyr ysgolion uwchradd wedi dangos hyblygrwydd ac ystwythder sylweddol yn eu hymateb i'r pandemig. Daethant i reoli'r trefniadau gweithredol a'r gofynion iechyd a diogelwch a ysgogwyd gan y pandemig yn fwyfwy medrus, gan ymateb hefyd i anghenion cymuned yr ysgol a pharhau â busnes 'arferol' yr ysgol. Yn aml, bu angen iddynt weithredu'n gyflym ac ar fyr rybudd i ymateb i newidiadau mewn canllawiau a phenderfyniadau a wnaed ar lefel genedlaethol.

Bu'n rhaid i arweinwyr addasu'u cynlluniau gwella a chyflwyno blaenoriaethau newydd yn ôl yr amgylchiadau yn newid. Mewn rhai achosion, mae ysgolion wedi cyflymu cynnydd yn unol â blaenoriaethau presennol, fel blaenoriaethau ynghylch medrau digidol neu ymgysylltu â rhieni. Mewn achosion eraill, maent wedi addasu blaenoriaethau presennol, fel blaenoriaethau'n ymwneud â dysgu ac addysgu neu ddatblygu'r cwricwlwm i adlewyrchu'r cyd-destun ar y pryd. Mewn enghreifftiau eraill, mae ysgolion wedi atal gwaith ar flaenoriaethau cyn y pandemig er mwyn canolbwyntio ar waith yn gysylltiedig â COVID-19. Lle y mae hyn wedi digwydd, mae'r blaenoriaethau hyn yn aml yn gysylltiedig â Cwricwlwm i Gymru.

Dywed llawer o arweinwyr fod y newidiadau a ysgogwyd gan y pandemig wedi gwneud iddynt fyfyrio ar eu harferion a'u ffyrdd o weithio. Er enghraifft, dywed rhai eu bod yn bwriadu newid eu polisïau a'u harferion o ran gwaith cartref, a bod dysgu o bell yn cynnig ffyrdd newydd o gefnogi disgyblion y mae mynychu'r ysgol yn peri trafferthion iddynt. Mae'r pandemig wedi peri bod angen llawer o newidiadau i'r ffyrdd y mae ysgolion yn gweithredu, a dywed llawer o arweinwyr bod nifer o'r rhain wedi bod yn fuddiol iddynt a'u bod yn bwriadu cadw'r newidiadau hyn. Er enghraifft, dywed rhai arweinwyr fod newidiadau i symud o gwmpas yr ysgol a mynd i mewn i ystafelloedd dosbarth a'u gadael wedi arwain at ymddygiad gwell. Hefyd, mae staff ac arweinwyr ysgol wedi sylwi bod cyfarfodydd ar-lein yn aml yn fwy effeithlon.

### Rheoli trefniadau gweithredol

Oherwydd bod angen i arweinwyr ymateb yn rheolaidd i ddigwyddiadau'r pandemig, dywed arweinwyr fod llai o amser ganddynt i feddwl a chynllunio'n strategol. Caiff cyfran fawr o amser ei threulio mewn cyfarfodydd ar ganllawiau gweithredol COVID-

19, gweinyddu protocolau profi ac olrhain COVID-19, darparu dysgu o bell, arweiniad i gynorthwyo athrawon i lunio graddau cywir wedi'u pennu gan ganolfannau a diwygio polisïau'r ysgol yn unol â'r datblygiadau hyn. Mae ychydig bach iawn o ysgolion wedi cynyddu capasiti'r uwch dîm arwain trwy gyflwyno swyddi penaethiaid cynorthwyol cyswllt dros dro.

Yn ystod tymor yr hydref, addasodd lleiafrif o ysgolion amserau'r diwrnod ysgol. Mewn rhai achosion, roedd hynny'n golygu bod y diwrnod ysgol yn gorffen rhwng 1.40 a 2.15 p.m. Addaswyd amseriadau er mwyn caniatáu am amserau cinio byrrach, wedi'u rhannu, neu er mwyn i gwmnïau bysys gludo disgyblion cynradd ac uwchradd ar wahân i leihau trosglwyddo'r firws. Yn ystod yr ail gyfnod clo, mae ysgolion wedi amrywio amseriadau a threfn y diwrnod ysgol i gefnogi ymgysylltiad disgyblion â dysgu ar-lein. Mae rhai ysgolion wedi dilyn amserlen arferol yr ysgol ac mae eraill wedi byrhau neu ymestyn gwersi, cyflwyno egwyliau rhwng gwersi neu wedi creu sesiwn les i leihau faint o amser mae disgyblion yn ei dreulio o flaen sgrin.

Yn gyffredinol, mae ysgolion wedi rhoi cyfleoedd i Flwyddyn 11 a Blwyddyn 13 fynd i'r ysgol yn rheolaidd o Mawrth 15fed ymlaen. Yn ystod y cyfnod hwn, mae athrawon yn darparu dysgu wyneb yn wyneb a dysgu o bell i ddisgyblion. Mae llawer o ysgolion yn cynyddu'n raddol nifer y disgyblion sy'n dod i safle'r ysgol fel bod hynny'n cynnwys disgyblion o gyfnod allweddol 3 a Blwyddyn 10 a Blwyddyn 12, er bod hynny'n amrywio'n sylweddol o ysgol i ysgol. Er enghraifft, mae darpariaeth wyneb yn wyneb yn amrywio o rhwng ychydig oriau ar un diwrnod i bum diwrnod llawn i ddisgyblion cyfnod allweddol 3.

**Cyfathrebu**

Trwy gydol y pandemig, mae ysgolion wedi addasu'u dulliau cyfathrebu ac wedi ymateb yn dda i'r angen am gyfleu negeseuon yn glir ac yn gyflym i rieni, staff a disgyblion. Mae arweinwyr yn defnyddio technoleg yn dda i gyfathrebu trwy negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol a deunyddiau ar eu gwefannau. Mae ysgolion yn paratoi negeseuon fideo, lle y bo'n briodol ac mae llawer o benaethiaid yn rhannu negeseuon trwy flogiau fideo. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi adolygu'u hadroddiadau i rieni ac mae llawer ohonynt yn cynnwys gwybodaeth am ymgysylltu â dysgu o bell.

**Cameo – Ysgol Gyfun Gymunedol Rhisga**

Er mwyn cefnogi lles staff, cynhaliodd pennaeth Ysgol Gyfun Gymunedol Rhisga hyfforddiant i arweinwyr canol ar gyfathrebu yn ystod yr argyfwng. Canolbwyntiodd yr hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r e-bost a chyfleu negeseuon yn ofalus, sut i eirio pethau, sut i ganolbwyntio ar atebion a sut i esbonio'r rhesymeg wrth wraidd penderfyniadau. Er enghraifft roedd un gweithgaredd yn ymwneud ag ystyried neges e-bost â geiriad gwael, a chreu neges e-bost wahanol yn cyfleu'r un neges mewn ffordd fwy caredig.

Mae cyfathrebu â disgyblion wedi bod o'r pwys mwyaf wrth sicrhau eu diogelwch a'u lles, ynghyd â sicrhau parhad yn eu dysgu. Mae ysgolion wedi parhau â'u systemau galw heibio yn rheolaidd ynghylch lles ac wedi cadw i fyny gyda gwybodaeth am wersi a disgwyliadau ar gyfer gwersi.

Mae uwch arweinwyr yn defnyddio technoleg i gyfathrebu â staff yn ddiogel, yn unol â chanllawiau presennol. Cynhelir sesiynau briffio i staff, cyfarfodydd adran a chyfarfodydd anffurfiol athrawon ar-lein a dywed arweinwyr eu bod yn canolbwyntio llawer mwy ar ddysgu ac addysgu. I lawer, mae hyn yn ddefnydd effeithiol o amser ac maent yn bwriadu parhau â rhai cyfarfodydd ar-lein ar ôl y pandemig. Mae ychydig ysgolion o'r farn bod cyfarfodydd ar-lein yn rhwystr rhag rhwydweithio'n effeithiol a rhannu arfer dda trwy weithdai.

**Cefnogi cymuned yr ysgol (rhieni a staff a llywodraethwyr)**

Mae penaethiaid ac arweinwyr yn ymwybodol bod angen help ar rieni i gefnogi'u plant wrth ddysgu gartref. Mae un ysgol yn darparu tiwtorialau a fideos ar-lein i rieni, sy'n rhoi syniadau am sut i ddefnyddio technoleg ar gyfer dysgu ar-lein. Trefnodd ysgol arall dair sesiwn gyda rhieni i roi cyngor ac arweiniad iddynt ar eu trefniadau i addysgu ac asesu disgyblion blwyddyn arholi. Mae llawer o ysgolion yn cynnal nosweithiau ar-lein i rieni, gydag apwyntiadau wedi'u neilltuo i bob pwnc. Mae adborth gan rieni yn awgrymu eu bod yn ffafrio'r dull hwn o gyfarfod ag athrawon, gan ei fod yn fwy preifat ac mae mwy o ffocws iddo. Ymddengys fod presenoldeb yn y cyfarfodydd hyn yn well na'r cyfarfodydd arferol yn yr ysgol.

**Cameo – Ysgol Lewis i Ferched**

Ers sawl blwyddyn, bu gan Ysgol Lewis i Ferched bortffolios ar-lein i bob disgybl. Er mwyn i nosweithiau rhieni ganolbwyntio ar gynnydd disgyblion yn hytrach nag ar faterion eraill, mae rhieni'n edrych ar y portffolios hyn gydag athrawon yn ystod nosweithiau rhieni. Mae natur ddigidol yr arfer hon yn golygu bod hyn wedi gweithio'n arbennig o dda yn ystod y pandemig, pan fu'n rhaid i'r ysgol symud ei nosweithiau rhieni ar-lein.

Mae cyfarfodydd llywodraethwyr wedi parhau ar-lein, gyda dogfennau'n cael eu rhannu'n electronig. Er bod rhai ysgolion yn araf ar y cychwyn i ddechrau cyfarfodydd llawn y corff llywodraethol ar-lein, yn bennaf oherwydd anawsterau technegol, mae'r rhan fwyaf ohonynt bellach yn cyfarfod yn rheolaidd trwy 'Teams' neu 'Zoom'.

Mae arweinwyr yn cynnig cymorth parhaus ar gyfer lles staff a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Sylwant fod staff yn fwy pryderus nag yr oeddent adeg ailagor ysgolion y tro diwethaf. Hefyd, mae staff yn pryderu am y baich gwaith sy'n gysylltiedig â darparu dysgu o bell ac addysgu wyneb yn wyneb pan fydd rhai disgyblion yn mynychu a bydd angen i eraill aros gartref.

**Cydweithredu a gweithio rhwng ysgolion**

Dywed y rhan fwyaf o benaethiaid fod cyd-benaethiaid wedi bod yn ffynhonnell gymorth bwysig. Mae penaethiaid a ddechreuodd yn eu swydd yn ystod neu yn syth cyn y pandemig wedi gwerthfawrogi hyn yn arbennig. Gan amlaf, mae penaethiaid wedi cyfarfod yn fynych trwy gydol y pandemig i rannu profiadau a syniadau, ac i weithio ar y cyd, o fewn ac ar draws sectorau.

Lle y cafodd ysgolion gyfle i gydweithredu ag ysgolion eraill, roedd hyn yn fuddiol iddynt. Mae awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol wedi cefnogi'r cydweithredu hyn trwy eu cynnig dysgu proffesiynol a thrwy hwyluso cyfarfodydd. Mae ychydig ysgolion wedi cydweithredu i ddatblygu adnoddau i ymateb i anghenion penodol o fewn eu cyd-destun eu hunain, er enghraifft i ddatblygu adnoddau i ddatblygu medrau llafaredd Cymraeg.

### Monitro a gwerthuso

Wrth i flwyddyn academaidd 2020-2021 fynd yn ei blaen, mae llawer o arweinwyr wedi ailsefydlu'u prosesau monitro a gwerthuso. Maent wedi addasu'u prosesau i gydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch ac wedi dibynnu'n drymach ar weithgareddau sy'n haws eu rheoli o dan amodau COVID-19. Er enghraifft, cyn cyfnod clo'r Nadolig, cynhaliodd arweinwyr ychydig o ysgolion deithiau dysgu, gan arsylwi gwersi o ddrws yr ystafell ddosbarth er mwyn cadw pellter cymdeithasol. Mewn ysgolion eraill, craffodd arweinwyr ar waith fel y byddent fel arfer, ond gan ganiatáu amser i roi llyfrau dan gwarantin. Mae ysgolion wedi gwneud defnydd cynyddol o holiaduron disgyblion, staff a rhieni, a grwpiau ffocws i raddau llai, er mwyn amlygu cryfderau a gwendidau mewn darpariaeth.

Yn ystod y cyfnod clo ar ôl y Nadolig, mae mwy o strwythurau wedi bod ar waith gan ysgolion i fonitro ansawdd y ddarpariaeth ar-lein nag yn ystod y cyfnod clo blaenorol. Mewn llawer o achosion, mae hyn wedi golygu bod uwch arweinwyr a phenaethiaid adrannau neu gyfadrannau wedi dod yn aelodau o ddosbarthiadau ar-lein a samplu'r ddarpariaeth. Mewn lleiafrif o achosion, mae arweinwyr yn arsylwi gwersi byw. Fodd bynnag, mae natur, amlder a thrylwyredd gweithgareddau monitro yn amrywio'n eang ac, mewn ambell achos, mae'r systemau'n rhai ad hoc, yn hytrach nag yn rhai ffurfiol.

Mae systemau ysgolion i fonitro ymgysylltiad disgyblion wedi dod yn fwy soffistigedig gydag amser hefyd. Erbyn hyn, mae gan y rhan fwyaf o ysgolion feini prawf cytunedig i ddiffinio ymgysylltiad ac maent yn gallu olrhain a monitro ymgysylltiad disgyblion yn fwy effeithiol. Mae'r meini prawf hyn yn cwmpasu amrywiaeth o ffactorau, fel presenoldeb mewn gwersi byw neu gyfnodau dosbarth, cyflwyno gwaith ac ansawdd gwaith. Fodd bynnag, mae anawsterau'n parhau o ran olrhain a monitro ymgysylltiad disgyblion yn fanwl pan fyddant yn dysgu o gartref. Er enghraifft, gallai canrannau ymgysylltu cyfartalog guddio amrywiad sylweddol rhwng pynciau. Yn yr un modd, nid yw presenoldeb disgyblion mewn gwersi ar-lein o reidrwydd yr un fath ag ymgysylltu. Efallai na fydd disgyblion eraill yn mynychu unrhyw wersi byw ond yn troi at yr holl ddeunyddiau yn anghydamserol. Yn ogystal, mae amlder y monitro a chysylltu â disgyblion a rhieni yn parhau i amrywio. Mae rhai ysgolion yn cofrestru disgyblion ym mhob gwers ac yn cysylltu â disgyblion ar unwaith os na fyddant yn bresennol; mae eraill yn monitro ac yn cysylltu yn ddyddiol ac mae rhai yn monitro'n wythnosol neu bob pythefnos.

Mae llawer o ysgolion yn defnyddio amrywiadau ar y prosesau gwerthuso hyn i amlygu cryfderau a chyfleoedd i rannu arfer dda. Hefyd, mae ysgolion yn amlygu meysydd y mae angen eu gwella ac yn gwneud newidiadau o ganlyniad. Er enghraifft, mae ysgolion wedi newid hyd gwersi, wedi cyflwyno mwy o egwyliau ac wedi addasu'r amserlen i ymateb i'w canfyddiadau. Mewn enghreifftiau eraill, mae ysgolion wedi addasu'r ddarpariaeth dysgu proffesiynol i gefnogi ffocysau'r ysgol

gyfan ac anghenion ymarferwyr unigol. Fodd bynnag, oherwydd yr amgylchiadau presennol, mae gwerthuso ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn benodol yn llawn wedi bod yn heriol i ysgolion.

**Y grant dysgu carlam (Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau)**

Ar y cyfan, mae ysgolion wedi cael gwybodaeth ddefnyddiol gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol am grant 'Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau: y rhaglen dysgu carlam' Llywodraeth Cymru. Mae ysgolion wedi mabwysiadu amrywiaeth fawr o ddulliau wrth gynllunio sut i ddefnyddio'r grant. Mae'r modd y mae ysgolion wedi defnyddio a monitro'r grant yn amrywio'n fawr ar draws Cymru.

Ar y cyfan, mae arweinwyr ysgol yn pryderu am fedrau llythrennedd disgyblion yn benodol. Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn pryderu'n fawr am fedrau Cymraeg disgyblon. Yn gyffredinol, prif ffocws arweinwyr ar gyfer unrhyw ddarpariaeth ychwanegol yw cefnogi disgyblion ym Mlwyddyn 11 a Blwyddyn 13 a phynciau craidd.

**Defnydd cadarnhaol o'r grant**

- Mae llawer o ysgolion yn defnyddio'r cyllid hwn i gefnogi medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion, ac i gynnig ymyriadau i ddisgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae'r ysgolion hyn yn parhau i gynnig y ddarpariaeth hon o bell, trwy ddefnyddio cynorthwywyr addysgu neu trwy gyflogi staff ychwanegol.
- Mae lleiafrif o ysgolion wedi penodi athrawon ychwanegol ar gyfer Cymraeg, Saesneg a mathemateg i leihau meintiau dosbarth a chaniatáu mwy o hyblygrwydd wrth neilltuo staff i grwpiau targed.
- Mae ychydig o ysgolion wedi defnyddio'r grant i gynllunio darpariaeth amgen i ddisgyblion sydd wedi'i chael hi'n anodd mynd yn ôl i ddysgu yn dilyn y cyfnod clo cychwynnol. Mae'r ysgolion hyn wedi penodi aelodau staff ychwanegol, gan gynnwys cynorthwywyr addysgu a hyfforddwyr dysgu, i gynnig amrywiaeth o weithgareddau ochr yn ochr â'r cwricwlwm craidd. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys cynnal sesiynau cymorth lles ychwanegol a darparu sesiynau adolygu neu ddal i fyny ar ôl ysgol.
- Mae ychydig bach iawn o ysgolion yn darparu cymorth targedig i ddatblygu cymhwysedd digidol disgyblion unigol.

**Heriau**

- Yn gyffredinol, mae recriwtio athrawon newydd wedi bod yn her i arweinwyr, yn enwedig mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd.
- Mae llawer o arweinwyr yn nodi prinder athrawon mathemateg, sydd wedi cyfyngu ar eu cyfleoedd i gynllunio a gwario'r grant hwn.
- Dywed llawer o arweinwyr eu bod yn methu recriwtio athrawon i fodloni anghenion disgyblion yn ddigon cyflym.
- Nododd nifer o benaethiaid y gallai'r staff a gyflogwyd i gefnogi disgyblion gael eu defnyddio ar gyfer dysgu cydamserol yn ystod y cyfnod clo.

- Croesawodd penaethiaid y cyllid ond maent yn ymwybodol o'r ffaith bod terfyn amser arno, ac felly mae'n heriol o ran cynllunio hirdymor yr ysgol, a gellir gwario'r arian ar agweddau penodol yn unig.

**Cameo – Ysgol Gyfun Gwent Is Coed**

Mae Ysgol Gwent Is Coed, sy'n ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg, wedi penodi athro cymorth iaith amser llawn i weithio gyda disgyblion sydd wedi ymuno â'r ysgol trwy raglen drochi iaith. Y bwriad yw i'r athro hwn hefyd gefnogi disgyblion sy'n cael trafferth â chaffael iaith ar draws y cwricwlwm yn dilyn y cyfnod clo.

### Lles penaethiaid a'r effaith ar arweinwyr

Bach iawn o seibiant y mae uwch arweinwyr, a phenaethiaid yn benodol, wedi'i gael ers dechrau'r pandemig. Yn ogystal â'u cyfrifoldebau arferol, treuliant lawer o amser, gan gynnwys oriau'r tu allan i'r ysgol, yn delio â gwaith yn gysylltiedig â COVID-19, fel rheoli'r profion llif unffordd i staff a disgyblion. Hefyd, mae pryderon am y baich gwaith i benaethiaid o ran rheoli'r broses apelio.

Mae wedi bod yn heriol i benaethiaid ac arweinwyr reoli negeseuon a chynllunio'n briodol pan fyddant wedi cael bach iawn neu ddim rhybudd ymlaen llaw am gyhoeddiadau cyhoeddus ar faterion fel dychwelyd i'r ysgol neu drefniadau ar gyfer arholiadau. Dechreuant gael ymholiadau gan rieni, disgyblion a staff cyn iddynt gael amser i ddarllen y wybodaeth ofynnol ac ystyried camau yng nghyd-destun eu hysgol nhw. Mae cadw i fyny ag arweiniad a negeseuon sy'n newid yn aml, o lawer o wahanol ffynonellau, hefyd yn rhoi pwysau ychwanegol ar benaethiaid.

### Rheoli adnoddau

Mae penaethiaid wedi defnyddio cynorthwywyr addysgu a mentoriaid bugeiliol i gefnogi dysgu a lles disgyblion trwy ddarpariaeth wyneb yn wyneb a digidol. Mae llawer o ysgolion wedi neilltuo cynorthwywyr addysgu i ystafelloedd dosbarth ar-lein er mwyn cynorthwyo disgyblion â'u gwaith. Mae staff bugeiliol wedi cysylltu â disgyblion sydd heb ymgysylltu â'u dysgu, a hynny dros y ffôn i gynnig cymorth. Yn ogystal, mae ysgolion wedi gwahodd disgyblion na wnaethant ymgysylltu'n dda â dysgu, neu sydd wedi cael trafferth â gwaith ysgol, i'r ysgol, lle cânt gymorth gan staff.

Yn ystod tymor yr hydref a'r ail gyfnod clo, parhaodd ysgolion i roi benthyg cyfarpar digidol i ddisgyblion heb gyfarpar TGCh gartref neu i ddisgyblion a oedd yn gorfod rhannu un ddyfais â nifer o frodyr a chwiorydd. Mae hyn wedi galluogi disgyblion i fanteisio ar wersi byw, darnau fideo wedi'u recordio ymlaen llaw, adnoddau digidol, tasgau a gweithgareddau trwy blatfformau ar-lein. Mae ychydig o benaethiaid yn mynegi rhwystredigaeth fod dyfeisiau a archebwyd i gynorthwyo staff a disgyblion â dysgu o bell wedi cymryd sawl mis i gyrraedd. Mae ychydig o ysgolion yn archwilio sut y gallant gynnal ac ehangu cynlluniau sy'n rhoi benthyg cyfarpar TGCh i gynorthwyo disgyblion sydd heb gyfarpar digidol addas gartref. Yn gyffredinol, mae ysgolion yn dechrau cynllunio sut y gallant wneud mwy o ddefnydd o blatfformau digidol ar gyfer dysgu yn y dyfodol, er enghraifft i ddatblygu medrau digidol disgyblion ymhellach ac i gyfoethogi addysgu yn yr ystafell ddosbarth.